**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CABINET**

**SUBJECT:** **CABINET - DYDD MERCHER, 19 GORFFENNAF 2023 DYDD MERCHER, 19 GORFFENNAF 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: COUNCILLOR S THOMAS

Councillors H. Cunningham
J. C. Morgan
H. Trollope
S. Edmunds

WITH: Prif Weithredwr Dros Dro
Adnoddau Prif Swyddog
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Addysg
Prif Swyddog Cwsmeriaid a Masnachol
Pennaeth Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Arweinydd Tîm Partneriaethau
Swyddog Polisi
Swyddog y Wasg

**PENDERFYNIADAU O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

| **ITEM** | **SUBJECT** | **ACTION** |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Partneriaethau a Llywodraethiant | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>CABINET</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i benderfyniadau cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2023.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r penderfyniadau. | |
| **No. 5** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R CABINET</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i benderfyniadau cyfarfod arbennig o'r Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG 2023-24 Y CABINET</u>** | |
| **No. 7** | **<u>GRANTIAU I SEFYDLIADAU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 8** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG 2022/23</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg 2022/23, fel y'i cyhoeddwyd ar 30 Mehefin 2023 (Opsiwn 1). | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 9** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW 2022/2023 – ALL-DRO DARPARIAETHOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, yr her priodol i ddeilliannau ariannol yr adroddiad a nododd y Cabinet y defnydd net o gronfeydd penodol wrth gefn (Opsiwn 1). | |
| **No. 10** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF, ALL-DRO DARPARIAETHOL BLWYDDYN ARIANNOL 2022/23 (FEL AR 31 MAWRTH 2023)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a:<br>(a) rhoddwyd yr her briodol i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad;<br>(b) parhau i gefnogi'r gweithdrefnau rheoli ariannol priodol a gytunwyd gan y Cyngor; a<br>(c) nodi'r gweithdrefnau ar reoli cyllideb a monitro sydd yn eu lle o fewn y Tîm Cyfalaf, i ddiogelu cyllid yr Awdurdod (Opsiwn 1). | |
| **No. 11** | **<u>CYFLAWNI GOFYNION PENODOL DEDDF CYDRADDOLDEB 2010: DATBLYGU POLISI CYDRADDOLDEB STRATEGOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chefnogwyd y dull a gynigiwyd ar gyfer datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024/28 ac Amcanion Cydraddoldeb a gymeradwyir gan y Cabinet (Opsiwn 1). | |
| **No. 12** | **<u>SIARTER CYTUNDEB CYFFREDIN RHWNG CYNGHORAU TREF A CHYMUNED A CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Polisi a Phartneriaethau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo dychwelyd i drefniadau presennol y Siarter Cytundeb Cyffredin gyda'r pedwar cyngor tref a chymuned, gyda siarter ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 ymlaen i'w gyflwyno i'w gytuno mewn cyfarfod yn y dyfodol (Opsiwn 1). | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 13 | **<u>PREMIWM TRETH GYNGOR AR GARTREFI GWAG HIRDYMOR AC AIL GARTREFI</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Nododd y Dirprwy Arweinydd y cwestiynau i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1 a chynigiodd y dylid newid y gair 'teimlo' yng nghwestiwn 2 i ddarllen 'sylwadau' gan fod yr ymgynghoriad yn gofyn am farn pobl. Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd hefyd y dylid cynnwys cwestiwn agored ychwanegol a fyddai'n galluogi pobl i gynnwys unrhyw sylwadau pellach y teimlant sy'n berthnasol wrth ymateb i'r ymgynghoriad.<br><br>Awgrymodd y Dirprwy Arweinydd hefyd y byddai'n ddefnyddiol wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ein bod yn gwybod ym mha gapasiti mae pobl yn ymateb. Teimlid y byddai ymateb gan elusen tai neu ddigartrefedd yn wahanol iawn i landlord ac efallai landlord cymdeithasol cofrestredig.<br><br>Cafodd y cynigion eu cefnogi a'u heilio gan Aelodau Cabinet.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi manylion y pwerau dewisol sydd gan gynghorau yng nghyswllt premiwm treth gyngor, a chytunwyd cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i gyflwyno premiwm treth gyngor ar gyfer eiddo sy'n wag am gyfnod hir o fewn Blaenau Gwent. Mae'r cwestiynau a gynigir ar gyfer yr ymgynghoriad yn Atodiad 2 (Opsiwn 1). | |
| No. 14 | **<u>GWYBODAETH PERFFORMIAD DIOGELU (YN CYNNWYS GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 1 IONAWR I 31 MAWRTH AC ADDYSG TYMOR Y GWANWYN – 2023 A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r dull gweithredu a'r Polisi Diogelu mewn Addysg diwygiedig a ddangosir yn Atodiad 3 (Opsiwn 1). | |